Menter Taf Elái

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

**1992 - - 2026**

# Tafod Elái

GORFFENNAF 1992 Pris 25c RHIF 69




Merfyn Griffiths, Cadeirydd y cyfarfod gyda Rowland Wynne, Ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith.

## SEFYDLU FFORWM TAF ELÁI

Mewn cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Dowlais rhoddwyd pleidlais unfrydol o blaid sefydlu Fforwm i hybu'r iaith Gymraeg yn Nhaf Elái. Daeth cynrychiolwyr o bob rhan o'r fro i'r cyfarfod i glywed crynodeb o adroddiad a baratowyd gan Weithgor yr Iaith a'r Fro ac yna i drafod y cynnig i sefydlu Fforwm.

Prif waith y Fforwm fydd llunio strategaeth iaith gyflawn i gwrdd ac anghenion yr ardal a gwylio ac arolygu'r sefyllfa'n barhaus. Ceir nifer o awgrymiadau ac argymhellion yn adroddiad y gweithgor "Y Gymraeg yn Nhaf Elái" dogfen hanesyddol a swmpus fydd yn garreg sylfaen i waith y Fforwm.



Cynllun Chwarae Gorau Taf Elái - Ysgol Rhydfelen1993




Danny Grehan, Cadeirydd, (chwith) ac Efa Gruffudd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg (dde), yn cyflwyno arwydd 'Ar Agor' i fusnes ym Mhontyclun ym 1996

Y Cymro 27 Ionawr 1993

# Menter yn dwyn ffrwyth

**CHWE mis ar ôl ei sefydlu, mae gweithgareddau yn dechrau cael eu trefnu yn enw Menter Taf Elai.**

Sefydlwyd y fenter i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal ymhlith pobl o bob oed. Bu'r chwe mis cyntaf yn gyfnod o sefydlu is-bwyllgorau Ieuenctid, Gŵyl a Hamdden, Delwedd y Gymraeg a Cymraeg i oedolion.

Dywedodd yr ysgrifennydd, Helen Prosser, fod adran Gwasanaethau Hamdden Cyngor Bwrdeistref Taf Elai wedi bod yn gefnogol iawn a byddant cyn bo hir yn dechrau cyflwyno gweithgareddau cyfrwng Gymraeg yn eu canolfannau e.e. aerobig.

"Mae'r is-bwyllgor Delwedd am ganolbwyntio ar godi proffil y Gymraeg yn yr ardal ac un cynllun y gobeithir ei wireddu yn y dyfodol agos yw gweld busnesau'r ardal yn mabwysiadu cynllun Iaith Gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Bwriad y cynllun hwn yw i fusnesau ac aelodau unigol o staff o fewn busnesau ddangos eu bod yn medru'r Gymraeg," meddai.

Bydd Ysgol Undydd i oedolion sy'n dysgu Cymraeg yng nghanolfan TEEOPS, Pontypridd, Sadwrn Chwefror 27 gyda'r tiwtoriaid i gyd yn dysgu'n wirfoddol a'r elw'n mynd at sefydlu cronfa i gynorthwyo dysgwyr ardal Taf Elai.

Eisoes sefydlwyd grwp drama i bobl ifainc sydd yn cyfarfod yn ysgol gynradd Gymraeg Llantrisant bob nos Lun ac ar nos Fercher. Heno bydd noson Caws a Gwin yng Nghlwb y Bont, Pontypridd, am 7.30pm i lansio cwmni Drama i oedolion.

"Mae'r Fenter yn ffyddiog y bydd yn helpu codi proffil y Gymraeg yn ardal Taf Elai ac y bydd ei gweithgareddau yn gymorth amhrisiadwy i'r plant sydd yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Y gobaith yn awr yw denu nawdd gan y Swyddfa Gymreig," meddai.






1997 Bore Coffi yn Llantrisant



1994 Clwb Pêl-droed Llanilltud Faerdref




Prosbectws y Fenter 1997

WESTERN MAIL

17/11/1993

# Tills ring in tune with language

WELSH IS now an official language at a check-out in one of the biggest superstores in South Wales.

Till operator Angharad Potts is just one of the staff at a large Tesco store offering a Welsh language service for customers.

The supermarket at Talbot Green in Mid Glamorgan has just been accepted into an official "Working with Welsh" scheme.

A total of 15 staff across the store volunteered for Welsh duties.

Store manager Martin Baker said he was surprised to find so many Welsh speakers — and pleased his supermarket could now advertise a language service.



Cynllun Chwarae 1999 yn Ysgol Rhydfelen

# Landmark for Welsh playscheme

SASHA Brooks was the 15,000th youngster to attend a Welsh-speaking play scheme.

Menter Taf Elai presented Sasha, aged seven, with a pack of goodies to celebrate the occasion at the playscheme at Ysgol Gyfun Rhydfelen.

Menter Taf Elai playscheme leader Meinir Thomas and organiser Nerys Rhys presented Sasha with her colourful dictionary and goodie-bag.

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail pupil Sasha, of Gilfach Goch, also enjoyed a free day at the play scheme.

Menter Taf Elai established play care/schemes in 1993. Since then the Welsh language group has provided the service between 8.30am-5.30pm every day of the school holidays at Ysgol Gyfun Rhydfelen and opened a second site at Ysgol Gyfun Gymraeg Llanhari.





MENTER Taf Elái

CALAN 1995

Y Tŷ Model, Llantrisant, Morgannwg Ganol, CF7 8EB. Ffôn: (01443) 226386

Yn perthyn i bawb sy'n byw, gweithio neu'n derbyn addysg yn ardal Taf-Elái. Yr elusen leol sy'n hybu defnydd o'r Gymraeg.

DYDDIADAU EISTEDDFODAU'R URDD

MANYLION GWAITH MENTER TAF-ELÁI

RHESTR DIGWYDDIADAU

CYSYLLTIADAU DYSGU CYMRAEG

ENGLISH ON OTHER SIDE

## BLWYDDYN NEWYDD DDA

Dyma ni yn 1995, blwyddyn arall o weithgarwch Cymraeg gyda Menter Taf-Elái. Dewch i fwynhau POPETH YN GYMRAEG.

Mae'n fantais siarad Cymraeg yr adeg hon o'r flwyddyn gan fod modd dathlu diwrnod Santes Dwynwen ar 25ain Ionawr yn ogystal â diwrnod Sant Ffolant ar 14eg Chwefror! Wedyn wrth gwrs mae rhaid dathlu Dydd Gŵyl Dewi! Does dim diwedd ar hwyl yr Ŵyl!

Ym mis Mawrth hefyd y mae Eisteddfodau lleol Yr Urdd felly, rhwng yr holl ddathlu, y mae eisiau ychydig o ymarfer os ydych am gyrraedd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhenfro yn yr Haf. Y mae holl fanylion yr Eisteddfodau yng nghanol y cylchlythyr.

Y tu mewn hefyd cewch wybod am ymdrechion y Fenter i sefydlu Fforwm o holl fudiadau Cymraeg yr ardal a phwyllgorau ardal ym Mhontypridd a Thonyrefail.

Os oes modd ichi gynrychioli ysgol, côr, capel neu gymdeithas ar y Fforwm rhowch wybod! Os ydych am ymuno ag un o bwyllgorau lleol y Fenter, rhowch wybod!

ENILLYDD EIN CYSTADLEUAETH PANTOMEIM BRANWEN :- Ceri Phillips, athrawes yng Nghaerdydd


BRANWEN

Cyhoeddwyd gan Menter Taf-Elái, Y Tŷ Model, Llantrisant.

Noddwyd gan Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Noddwyd y dylunio a dyluniwyd gan Stiwdio Acen

Cylchlythyr 1995



MENTER Taf Elái

## HYBU DEFNYDD O'R IAITH GYMRAEG

**Prif nodau'r Fenter yw:**

Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg trwy weithgareddau hamdden

Hyrwyddo addysg Gymraeg

Helpu oedolion i ddysgu'r Gymraeg

Codi proffeil y Gymraeg ymysg busnesau'r ardal

**Mae Menter Taf-Elái yn gallu helpu trwy:**

Gynghori ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg

Darparu nwyddau Iaith Gwaith am ddim

Cynghori ynglŷn â gwersi Cymraeg

Trefnu cyfieithu i'r Gymraeg

Darparu offer cyfieithu ar y pryd

Cyhoeddi cylchlythyr

**Cynlluniau gofal / chwarae'r Fenter**

Mae Menter Taf-Elái yn trefnu cynlluniau gofal/chwarae yn ystod gwyliau'r ysgolion a chlwb ar ôl oriau ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd

**The main aims of Menter are:**

To increase the opportunities for people of every age to use the Welsh Language for leisure activities

To encourage Welsh education

To help adults learn Welsh

To raise the profile of Welsh among local businesses

**Menter Taf-Elái can help by:**

Advising on use of the language

Providing the Working Welsh Scheme goods free of charge

Advising on how to learn Welsh

Arranging translation into Welsh

Providing instantaneous translation facilities

Menter also publishes a newsletter

**Menter play care schemes**

Menter Taf-Elái organise play/care schemes during school holidays and an out of school hours club during the academic year

ENCOURAGING USE OF THE WELSH LANGUAGE






Staff y Fenter yn 2001



John Thomas, Cadeirydd, gyda Jane Davidson A.C.
ac Owen John Thomas A.C. yn Parti Ponty 2002






Parti Ponty 1999









Parti Ponty 2002



Alun Thomas, BBC, bu'n annerch Cwlwm Busnes
yn 2003 gydag Eric Jones, Cadeirydd y Fenter.



HSBC yn cyflwyno grant Hyrwyddo Dysgwyr 2001

# Hanes Menter Taf-Elái

# a Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Sefydlwyd Menter Taf-Elái yn 1992 yn dilyn adroddiad gweithgor a sefydlwyd yn ystod Eisteddfod yr Urdd Taf-Elái 1991.

Tasg gyntaf y Fenter newydd oedd casglu arian i gychwyn cynnal gweithgareddau i blant a phobl ifanc. Roedd gweithgarwch codi arian yn parhau ar ôl yr Eisteddfod a sicrhaodd hynny sail gadarn i gychwyn datblygu. Derbyniodd y Fenter grant o'r Swyddfa Gymreig a phenodwyd Steffan Webb yn Swyddog Datblygu yn 1993.

Agorwyd swyddfa'r Fenter yn y Tŷ Model, Llantrisant, ac yn fuan datblygodd y Fenter i ddarparu gweithgareddau di-ri yn cynnwys Cynlluniau Chwarae Gwyliau, Clybiau i blant a phobl ifanc yn cynnwys snwcer, drama a phêl-droed. Cynhaliwyd y Raligamps gyntaf yn 1993 ym Mharc Ynysangharad a dyfodd i fod yn ŵyl enfawr Parti Ponty.

Roedd y Cynlluniau Chwarae Gwyliau yn Rhydfelen a Llanhari yn llwyddiannus iawn ac yn derbyn cydnabyddiaeth eang am eu darpariaeth ac am eu llwyddiant i roi cyfleoedd i siarad Cymraeg. Cofrestrwyd y Fenter yn Elusen.

Yn dilyn ad-drefnu'r Cynghorau a diddymu Cyngor Taf-Elái yn 1996 rhoddwyd pwysau ar y Fenter i ehangu i weithredu yn ardal Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf.

Yn 1998 cychwynnwyd agor Clybiau ar ôl Ysgol, Clybiau Carco, oedd yn ateb y galw am ofal i nifer cynyddol o rieni oedd yn gweithio. Roeddynt hefyd yn rhoi cyfle arbennig i blant oedd nid yn unig yn cael addysg Gymraeg ond yn cael chwarae yn Gymraeg.

Trefnwyd nifer o weithgareddau anffurfiol i ddysgwyr a datblygwyd cyfres o Foreau Coffi ar draws y Sir.

Datblygodd gwasanaeth Ieuenctid y Fenter gyda chymorth grantiau'r Loteri a chydweithrediad y Cyngor Sir a'r Urdd. Hefyd drwy grant y Loteri datblygwyd cysylltiadau gwirfoddoli gyda Interlink a sefydlu swyddog.

Daeth cyfleoedd pellach i ehangu'r ddarpariaeth drwy gynllun Cymunedau'n Gyntaf fu'n weithgar yn ardaloedd llai breintiedig cymoedd Rhondda a Chynon ac agorwyd swyddfeydd yn Aberdâr a Threorci.

Datblygwyd Gwasanaeth Cyfieithu gyda chymorth y Loteri a bu cryn arloesi ym maes cyfieithu ar y pryd gydag offer pwrpasol. Cynhaliwyd cyrsiau i hyfforddi Cyfieithwyr ar y Pryd.

Mae'r Fenter wedi gweithredu ym mhob rhan o'r sir i hyrwyddo'r Gymraeg ac wedi cael cymorth llu o wirfoddolwyr a chefnogwyr. Mae'r gwaith yn parhau gan gymryd pob cyfle i weithredu dros y Gymraeg.

| Prif Swyddogion | Cadeiryddion |
|---|---|
| 1993 Steffan Webb | 1992 Guto Roberts |
| 2007 Alun Cox | 1994 Danny Grehan |
| 2008 Kevin Davies | 1997 Penri Williams |
| 2014 Einir Siôn | 2001 John Ll. Thomas |
| 2021 Osian Rowlands | 2004 Eric Jones |
| | 2006 Dawn Williams |
| | 2010 Brett Duggan |
| | 2019 Heulyn Rees |
| | 2021 Hefin Gruffudd |

**Codwyd miloedd o arian drwy'r Cynllun Tesco diolch i'r trefnwyr—John Williams, Guto Roberts a John Llewellyn Thomas.**


***YDY CHI A'CH FFRINDIAU***

***YN SIOPA YN TESCO?***

TESCO

Ydy chi eisiau helpu Menter Iaith godi arian?

Os ydych, gallwch chi godi arian at Menter Iaith trwy brynu cardiau siopa Tesco wrth y Menter.

Mae 5% o'r arian chi'n gwario ar gerdyn siopa Tesco gan gynnwys prynu petrol yn mynd nôl at y Menter.

Mae'r cardiau siopa yn werth £50 yr un ac yn cael ei dosbarthu yn fisol.

Os oes diddordeb gennych chi helpu Menter Iaith pan chi'n siopa yn Tesco gan gynnwys prynu petrol cysylltwch â John Williams ar 02920 890101 neu john.williams101@btinternet.com, neu cysylltwch â Geraint Bowen ar 01443 226386 neu geraintbowen@menteriaith.org.

***MENTER IAITH***

**'POB GAIR YN CYFRI'**







Helen Prosser a Guto Roberts
yr Is-Gadeirydd a Chadeirydd cyntaf.



# Grant helps language

9/9/1999

THE Llantrisant-based organisation Menter Iaith is looking for a youth coordinator to help promote and develop the use of the Welsh language among secondary school-aged youngsters throughout Rhondda Cynon Taff.

The post is possible thanks to a £75,000 grant from the National Lottery Charities Board for Wales.


The coordinator would work with Menter Iaith and Urdd Gobaith Cymru.



Grant gan Gronfa Cyfleoedd Newydd
y Loteri yn 1999



Rhodri Glyn Thomas A.C.  a Dawn Williams,
Cadeirydd yn 2010




Dafydd Wigley A.C. a John Llewellyn Thomas,
Cadeirydd, yng Nghyfarfod Blynyddol 2003

South Wales Echo 20th February 1998

## Magic tricks go down a treat



▶ **MAGIC TIME** *Daryn Lucas, eight, Gemma Preece, seven, help conjuror Huw Stephens with a trick.*
***PICTURE:*** *Steve Phillips*

**CHILDREN were treated with tricks by a Welsh conjuror at their half-term playscheme in Rhydyfelin.**

**It was the first time Welsh language society Menter Iaith had invited a conjuror to entertain the children as part of their playscheme activities.**

**Huw Stephens, from Whitchurch, Cardiff, proved a popular choice and when he finished at Rhydyfelin yesterday he went on to visit youngsters at Menter Iaith's two other playschemes at Cymmer and Llanharry.**

**"He went down very well with the children," said Menter Iaith child-care officer Glenys Jones.**

**"He was very good with them and they enjoyed the show – so did the staff.**

**"It was the first time we'd had a conjurer – I don't think there are many Welsh language conjurors about.**

**"I'm sure we would love to have him again."**

**The half-term schemes were ending today but more Welsh language activities are being planned for children in Rhondda Cynon Taff during the Easter break.**



Clwb Carco Llwyncelyn 2006



Y Tebot Piws yn Gig y Fenter 2009



Owen John Thomas A.C., Eric Jones, Cadeirydd,
a Jane Davidson A.C., Parti Ponty 2006





Martyn Geraint Parti Ponty 2002



2010



Joio gyda Martyn Geraint yn 2025



Parti Ponty 2007



Beirniadu Parti Pasg 2011




Y Cwis Mawr yn Yr Hen Lyfrgell Porth 2023



Emyr Afan yn Cwlwm Busnes yn 2001



Parti Pwll yn y Parc 2022




Miri Mai Aberdâr 2011



Cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2006



Gwirfoddolwyr Parti Ponty 2024



Hefin Gruffudd, Cadeirydd, yn Rhedeg y Parc, Parti Ponty 2022




Cadog yn Ysgol Gyfun Cwm Rhondda yn 2025






Heulyn Rees, Cadeirydd, yn ffarwelio ag Einir Siôn a Guto Roberts, Ymddiriedolwr, yn 2021




Dathlu Gŵyl Dewi 2026 yn y Parc



2023

**Nod Menter Iaith Rhondda Cynon Taf yw sicrhau bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yn Rhondda Cynon Taf ac yn iaith fyw yn ein cymunedau.**

## Diolch

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i lwyddiant Menter Taf Elái a Menter Iaith Rhondda Cynon Taf dros y blynyddoedd - yn weithwyr, gwirfoddolwyr, plant, pobl ifanc, dysgwyr, oedolion, swyddogion, cadeiryddion, trysoryddion, ymddiriedolwyr ......

*Cyhoeddwyd gan Penri Williams - Mawrth 2026*